CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

Eich cyf/Your ref	
Ein cyf/Our ref	
Dyddiad/Date	Tachwedd 19 January 2011
Rhif union/Direct dial	01824 706652
e-bost/e-mail	Amy.weir@denbighshire.gov.uk

Annwyl

Sefydliadau Gwirfoddol – Ceisiadau am Grant Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2011/12

Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r hinsawdd economaidd bresennol. Rydyn ni eto i glywed beth yw effaith cynigion torri costau'r Llywodraeth ar awdurdodau Cymreig ac ar Sir Ddinbych yn arbennig. Rydyn ni'n credu, fodd bynnag, y bydd y toriadau'n sylweddol ac eisoes rydyn ni wedi dechrau trafod ailstrwythuro ein gwasanaethau i gyfarfod â'r diffygion a ragwelir. Ni allwn osgoi pasio'r toriadau ymlaen i bob un o'n darparwyr a theimlwn fod yn rhaid i ni roi cymaint o rybudd ag sydd bosib i chi o'n bwriad.

Er mwyn cyflawni'r toriadau sy'n ofynnol, fe fydd yn rhaid i ni dorri'r cyllid grant ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gyfan gwbl o Fawrth 31ain, 2012. Fe fyddwn ni, fodd bynnag, yn dal i ariannu Sefydliadau Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn lleddfu'r toriad hwn, a hefyd i ganiatáu i ni geisio cyllid o ffynonellau gwahanol.

Mae proses ymgeisio am Grant y Sefydliad Gwirfoddol yn awr ar agor i sefydliadau gwirfoddol ymgeisio ar gyfer cyllid 2011/12 i alluogi'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i ddarparu gwasanaethau'n unol â'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Busnes 2011-2012.

Mae gwybodaeth wedi ei chynnwys yn y llythyr hwn sy'n amlinellu ein blaenoriaethau ariannu a'n gwasanaeth ar gyfer 2011/12, ac arni byddwn yn seilio ein penderfyniadau o ran dyrannu'r Grant Sefydliadau Gwirfoddol.

Fe allwch hefyd, wrth gwrs, ddymuno gwneud bidiau ychwanegol neu wahanol i sefydliadau eraill ac mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wedi'n hysbysu y bydden nhw'n

hapus i gynghori a chynorthwyo yn yr ymdrech yma. Mae John Watkin, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn cynnig cyngor a chymorth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Rhif ffôn CGGSDd yw 01824 702441 a chyfeiriad e-bost John Watkin yw john@dvsc.co.uk.

Nid oes yna unrhyw sicrwydd y derbynnir y ceisiadau am grant a phan na fydd sefydliadau yn cyfarfod â'n blaenoriaethau bellach, efallai y bydd yn rhaid i ni beidio ag ariannu.

Rydw i wedi cynnwys ffurflen gais sydd i'w chwblhau a'i dychwelyd ataf i erbyn Ionawr 31ain 2011. Byddwn yn hysbysu sefydliadau o'r canlyniad erbyn diwedd Chwefror 2011.

Yn gywir,

Amy Weir
Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Head of Children & Family Services

Social Services Department
64 Ffordd Brighton, Y Rhyl, Sir Ddinbych. LL18 3HN
Ffôn 01824 712900 Ffacs 01824 712888
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk <http://www.denbighshire.gov.uk>